



Gwefan y Senedd

17 Rhagfyr 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 25 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

I am writing to you under the Freedom of Information Act 2000 to request the following information from the Senedd:

- 1. The number of times websites were rejected access in 2019, 2020 and this year... by the Senedd's filtering systems?*
- 2. The breakdown of the rejected access requests (What topic? i.e. pornography etc)*
- 3. What were the main websites that were rejected access?*

Gweler ein hymateb atodedig i'ch cais. (*Gofynnwch am y data hyn gan Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru*)

Rydym yn mynd drwy'r proses o fudo i raglen hidlo gwe newydd ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar ddwy system ar hyn o bryd ("y System Gwaddol [*Legacy*]" a'r "System Gyfredol [*Current*]").

Mae'r data a nodir yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 01-02-2021 a 01-12-21 ac fe'u cofnodir ar y system gwaddol a'r system gyfredol (ac maent i'w gweld ar dabiau gwahanol ar y daenlen). Nid oes gennym ddata cynharach.

Dylid nodi bod yr adroddiadau rydym wedi gallu eu cynhyrchu o'r ddwy system nid yn unig yn dangos sawl gwaith y mae defnyddwyr wedi cael eu hatal rhag agor cynnwys y maent wedi ceisio'i gyrchu'n fwriadol, ond hefyd unrhyw gynnwys sydd wedi'i atal yn awtomatig, fel hysbysebion a chynnwys technegol diangen arall. Mae ein systemau'n

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

cofnodi pob eitem o gynnwys sydd wedi'i atal. Felly, yn aml iawn, gall nifer o eitemau eu hatal wrth i rywun geisio cyrchu dim ond un dudalen. Ee os bydd rhywun yn ceisio edrych ar wefan newyddion ddilys, gall ein systemau atal rhai mathau o hysbysebion ee gamblo. Mae'r ffigurau'n cynnwys pob eitem a gafodd ei hatal. Er enghraifft, mae system Gwaddol yn dangos mai'r categori sydd wedi'i atal fwyaf yw "Productivity Instant Messaging" -mae hyn yn ymwneud ag atal cynnwys ar safleoedd fel Gmail - gellir cyrchu'r prif safle ond bydd ein systemau'n atal systemau negeseuon gwib fel Google Hangouts.

Mae'r ymateb yn rhoi cyfanswm ar gyfer y ddwy system ac yna'n dadansoddi'r data i ymateb i gwestiynau 2 a 3 yn eich cais.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

<mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru>